**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-09-99(min)_wDRAFFT**

**COFNODION DRAFFT**

**Dyddiad:** 3 Tachwedd, 1999

**Amser:** 9.00-12.30

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 3, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol: Aelodau** (Etholaeth)

Val Feld (Cadeirydd) Dwyrain Abertawe

Rhodri Morgan (Ysgrifennydd Gorllewin Caerdydd

y Cynulliad)

Alun Cairns De Orllewin Cymru

Ron Davies Caerffili

Michael German De Ddwyrain Cymru

Brian Hancock Islwyn

Ann Jones Dyffryn Clwyd

Helen Mary Jones Llanelli

Phil Williams De Ddwyrain Cymru

**Swyddogion** (Adran)

Derek Jones Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd

Michael Cochlin Cyfarwyddwr y Grðp Datblygu Economaidd

Steve Phillips Pennaeth yr Uned Ddatblygu Rhanbarthol

**Cyfranwyr allanol**

John Everett Elf Oil UK Cyf

Vic Davies Prif Weithredwr, V & A Holdings

Malcolm Garrity Rheolwr Datblygu Economaidd,Manweb

Saleem Kidwai Association of Muslim Professionals

Hilary Davies Siambr Fasnach Gorllewin Cymru

Dick Crawshaw Siambr Fasnach Gorllewin Cymru

**Ysgrifenyddiaeth**

Helen Usher Clerc

Jo Trott Dirprwy Glerc

Joanne Glenn Dirprwy Glerc

**Eitem 1: Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau ac, yn arbennig, y cyfranwyr o'r sector preifat i'r cyfarfod. Atgoffodd hwy fod croeso iddynt siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg.

1.2 Mynegodd y Cadeirydd ei siom, er gwaethaf yr holl feirniadu a fu yn y cyfryngau ynglþn â diffyg cyfraniad y sector preifat yn y broses cronfeydd strwythurol, fod y darlledwyr wedi penderfynu peidio â darlledu'r cyfarfod arbennig hwn o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd.

**Ymddiheuriadau ac Eilyddion**

1.3 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau nac eilyddion.

**Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref**

**Cywirdeb**

2.1 Dylid newid "Diwydiannau Ysgafn" i "Ddiwydiannau Lyte".

2.2 Paragraff 4.3. Teimlai Ysgrifennydd y Cynulliad fod rhannau o'r drafft yn gamarweiniol. Er enghraifft, dylai'r cyfeiriad at ddisgwyliad y "[byddai] £25 miliwn yn dod o raglenni newydd" gyfeirio at y disgwyl y byddai £25 miliwn yn cael ei wario ar raglenni newydd. Derbyniodd yr Aelodau sylwadau Ysgrifennydd y Cynulliad gan gytuno y dylid cyflwyno ei ddiwygiadau'n uniongyrchol i Glerc y Pwyllgor er mwyn eu cynnwys yn y cofnodion.

2.3 Paragraff 4.8. Cytunwyd y dylid diwygio hwn i gyfleu "anghymeradwyaeth" cryf rhai aelodau ynglþn â'r ffaith fod y papur ariannol wedi cael ei gyflwyno mor hwyr, yn hytrach na "siom" y Cadeirydd yn unig.

2.4 Tudalen 9. Roedd y drefn rhifo wedi mynd o chwith yn adran 6

**Camau i'w Cymryd a Phwyntiau i'w Trafod Ymhellach**

2.5 Nodir y camau sy'n codi a'r pwyntiau sydd angen sylw pellach yn Atodiad 1.

**Eitem 3: Adroddiad Llafar Ysgrifennydd y Cynulliad**

3.1 Soniodd Ysgrifennydd y Cynulliad am y bobl a fydd yn colli eu swyddi yn Baird Clothing ym Maesteg a Phontardawe (296 o bobl yn colli eu swyddi yn dilyn cau safleoedd ymhen 3 mis). Hefyd, y disgwyl oedd y byddai rhagor yn colli eu swyddi yn Baird yn dilyn cyhoeddiad Marks and Spencer eu bod yn bwriadu gorffen defnyddio Baird fel eu cyflenwr dillad isaf. Byddai'n gwneud datganiad am y mater yn ystod y Sesiwn Lawn y prynhawn hwnnw.

3.2 Tynnodd Ysgrifennydd y Cynulliad sylw'r aelodau at Arolwg Tueddiadau Diwydiannol y CBI (a gyhoeddwyd ym mis Hydref) a gyflwynodd ddarlun mwy gobeithiol nag a gyflwynwyd ar gyfer y chwarter blaenorol. Roedd hyn yn cydfynd ag arolwg diweddaraf BCC a wnaeth danlinellu'r twf yn hyder y diwydiant gweithgynhyrchu ynghyd â gwelliant yn y ffigurau allforio o fewn y diwydiant, a gydag Arolwg Disgwyliadau Busnes Dunn & Bradstreet.

3.3 Roedd optimistiaeth o ran busnes ymysg gweithgynhyrchwyr yng Nghymru wedi codi i'w lefel uchaf ers mis Ebrill 1995, ac erbyn hyn, roedd Cymru'n fwy gobeithiol na'r DU am y tro cyntaf ers canol 1997. Roedd angen pwyso a mesur hyn yn erbyn ffigurau gwaith a oedd wedi parhau i ostwng yn ystod y chwarter diwethaf, er bod hyn wedi bod yn arafach na'r disgwyl. Roedd cynnydd yn nifer y bobl mewn gwaith yn cael ei ragweld yn ystod y chwarter nesaf.

3.4 Adroddodd Ysgrifennydd y Cynulliad am ei ymweliadau diweddar â General Electric yn Nantgarw a British Airways yn y Rhws. Roedd y cwmnïau hyn yn gwneud yn dda ac yn tyfu. Eu prif broblem oedd perswadio pobl ifanc i gofrestru ar eu cynlluniau prentisiaeth. Yn y cyd-destun hwn, soniodd am ychydig fentrau marchnata a hyfforddiant arloesol a fabwysiadwyd gan British Airways a'r South Wales Aerospace Group (SWAG). Dywedodd ei fod wedi edmygu'r fideos a gynhyrchwyd gan y cwmnïau hyn yn fawr, a'i fod wedi cytuno i ystyried a allai’r aelodau weld y fideos.

3.5 Yn olaf, rhoddodd adroddiad am gynhadledd a fynychodd yn Nulyn ble bu'n gwrando ar ddadl ddiddorol iawn ynglþn â sut roedd y Gwyddelod wedi adnabod sectorau twf yn y lle cyntaf.

3.6 Yna agorodd y Cadeirydd y drafodaeth a mynegwyd y pwyntiau canlynol:

- Yr unig gyfle oedd gan y Cynulliad i ddylanwadu ar y pwnc dadleuol o effaith y bunt uchel ar ddiwydiannau mwy cystadleuol Cymru fyddai yn ystod ymweliad Banc Lloegr â Chymru, a oedd ar fin digwydd. Nododd Ysgrifennydd y Cynulliad y byddai pryderon ynglþn â lefel y bunt yn cael eu cyfleu i'r Banc.
- Ynglþn â'r pwnc o brinder sgiliau, cydnabuwyd pwysigrwydd yr archwiliad sgiliau.
- Trafodwyd gwerth clystyru. Nododd Ysgrifennydd y Cynulliad, mewn perthynas â'r diwydiant aerofod, na allai gwir glwstwr, a fyddai'n cynnwys yr elfennau hyfforddi a chyflenwi o'r gadwyn gyflenwi, ddatblygu ond mewn cwmni a fyddai'n llawer mwy nag unrhyw gwmni a oedd yn bodoli yng Nghymru eisoes.

**Crynodeb y Cadeirydd**

3.7 Rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r drafodaeth trwy danlinellu pwysigrwydd cynllunio ac asesu sgiliau yn y farchnad lafur, a glustnodwyd gan y Pwyllgor yn ystod ei drafodaeth am ETAG. Nododd hefyd fod angen i'r Pwyllgor drafod unwaith eto a oedd y materion hyn yn fwy perthnasol i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed neu'r Pwyllgor Datblygu Economaidd; roedd yr aelodau'n bendant eu bod yn fwy perthnasol i'r olaf.

**Gweithredu**

- Ysgrifennydd y Cynulliad i gael gwybod a allai'r aelodau weld y fideos y cyfeiriwyd atynt uchod.
- Y Pwyllgor i drafod cwestiwn 'perchnogaeth' materion yn ymwneud â chynllunio ac asesu sgiliau yn y farchnad lafur unwaith eto.

**Eitem 4: Amcanion 1 a 3, Cyfraniad y Sector Preifat**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem gan esbonio fod y CBI a'r FSB wedi cyflwyno papurau i'r Pwyllgor, er gwaethaf y ffaith nad oeddent wedi derbyn gwahoddiad i wneud cyflwyniad yn y cyfarfod. Roedd yn bolisi ganddi i geisio ehangu'r ddadl trwy gynnig gwahoddiad i'r rhai nad oeddent wedi bod yn rhan o'r Tasglu). Esboniodd eu bod wedi ymgynghori â'r ddau sefydliad er hynny ynglþn â phwy i'w gwahodd i'r cyfarfod hwn i gyflwyno eu safbwyntiau am y broses (yn hytrach na safbwyntiau'r CBI neu'r FSB), a mabwysiadwyd eu hawgrymiadau.

4.2 Yna cyflwynodd y Cadeirydd Steve Phillips, sy'n Bennaeth yr Adran Ddatblygu Rhanbarthol ac yn gyfrifol am Gymorthdaliadau'r Wladwriaeth. Esboniodd fod hwn yn faes sydd â ffiniau ei gwmpas wedi'u diffinio'n weddol agos ac roedd hi'n gobeithio y byddai'n ddefnyddiol i'r aelodau ac i'r sector

preifat i osod y drafodaeth o fewn y cyd-destun hwn.

**Steve Phillips, Pennaeth yr ADdRh**

4.3 Cychwynnodd Steve Phillips ei gyflwyniad gydag amlinelliad byr o fframwaith cymorthdaliadau'r wladwriaeth. Y pwynt cyntaf oedd nad oedd unrhyw fath o gymorth, dan Gytundeb Rhufain, yn cyd-fynd â'r Farchnad Gyffredin os oedd yn effeithio ar gystadleuaeth neu'n bygwth effeithio ar gystadleuaeth. Roedd grantiau'n enghraifft amlwg, ond roedd llawer o rai eraill posibl megis gwerthu eiddo a thir am bris is, gohirio treth, ac ati.

4.4 Roedd gan y Comisiwn amrywiaeth eang o bwerau i adolygu'r rheolau, diddymu cymorth os oedd o'r farn nad oedd yn cyd-fynd â'r Cytundeb a gofyn i Aelod Wledydd roi gwybod am gymorth a dderbyniwyd. Gofynnwyd i'r aelodau edrych ar gyhoeddiad gan y DTI sef 'European Community state aids', y byddai copïau ohono'n cael eu dosbarthu i'r aelodau.

4.5 Yn gyffredinol, defnyddiwyd cyfyngiadau neu uchafswm ar gyfer cymorthdaliadau. Cynhwyswyd cynigion y Llywodraeth ar gyfer y map newydd yn y cyhoeddiad ynglþn â’r Ardaloedd newydd sy'n derbyn Cymorth. Roedd y Pwyllgor wedi derbyn y cyhoeddiad eisoes. Roedd y rhain yn amlinellu'r uchafsymiau arfaethedig ar gyfer yr ardaloedd 'Haen 1' a 'Haen 2' newydd. Roedd y rheolau'n gymhleth ac roeddent wedi datblygu dros gyfnod o amser. Roeddent yn rhannu'n gategorïau gwahanol.

- **Rheolau sectorol arbennig** yn ymdrin â cherbydau modur, adeiladu llongau, amaethyddiaeth, cwmnïau hedfan a sectorau eraill. Mae'r rhain yn fanwl iawn fel arfer i gyfyngu ar y cymorth a ddarperir.
- **'Fframweithiau llorweddol'** sy'n cynnwys Ymchwil a Datblygu, Cwmnïau Bach, hyfforddiant a gwarchod Amgylcheddol.
- Canllawiau eraill e.e. ynglþn â gwerthu tir sy'n eiddo i'r cyhoedd.

4.6 Roedd y rheolau hyn yn bwysig i Gymru oherwydd ar 1 Ionawr y flwyddyn nesaf byddai canllawiau newydd y Comisiwn ynglþn â chymorthdaliadau rhanbarthol yn dod i rym wrth i'r mapiau gael eu gweithredu. Roedd rhaglenni'r WDA yn arbennig o bwysig fel ffordd o sicrhau fod busnesau'n elwa o fanteision Amcan 1.

4.7 Roedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi cael problemau gyda rhai cynlluniau datblygu eiddo yn Lloegr ac roedd swyddogion yn ymgynghori gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd er mwyn sicrhau fod gan Gymru raglenni gweithredol a oedd yn cyd-fynd â'r rheolau. Un mater arbennig oedd yr arian i lenwi'r bwlch (y gwahaniaeth rhwng costau prosiect a'r gwerth a amcangyfrifir na allai'r prosiect fynd yn ei flaen hebddo).

4.8 Gan gloi, ailadroddodd Steve Phillips y prif bwyntiau:

- nid oedd y cymorth yn ddiderfyn yn ardal Amcan 1. Roedd rheolau a chyfyngiadau'n bodoli.

- Roedd y Cynulliad yn gobeithio cael y gorau o'r manteision i fusnesau yng Nghymru trwy lunio rhaglenni a fyddai'n hawdd eu defnyddio, ac a oedd yn cydymffurfio â'r rheolau.

4.9 Yna agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i'r llawr a mynegwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd Atodiad D i ddogfen y DTI sef "European Community State Aids" yn rhestru'r holl gymorthdaliadau gan y wladwriaeth, gan gynnwys y cyfyngiadau o ran cymorth ariannol y gellid ei roi'n uniongyrchol i fusnesau unigol.
- Roedd busnesau bach yn gymwys i dderbyn lwfans ychwanegol o 10-15%
- Roedd trafodaethau ynglþn â chymorthdaliadau'r wladwriaeth yng Nghymru yn cael eu cynnal yn uniongyrchol gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, gan eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â rhaglenni'r WDA. Nid oedd unrhyw drafodaethau unffurf yn digwydd ledled y DU, er bod egwyddorion cyffredinol yn bodoli.
- Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal eisoes gydag ardaloedd Amcan 1 eraill yn y DU er mwyn i bawb fod yn unfryd ynglþn â phwnc y dreth gorfforaeth.

**Gweithredu**

- Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor i ddosbarthu copïau o ddogfen y DTI sef "European Community State Aids" i'r aelodau

**Malcolm Garrity, Manweb**

4.10 Yna cyflwynodd y Cadeirydd Malcolm Garrity o Manweb, gan esbonio fod y sefydliad wedi derbyn gwahoddiad oherwydd bod ganddo brofiad o weithio mewn dwy ardal Amcan 1 arall eisoes.

4.11 Diolchodd Malcolm Garrity i'r Pwyllgor am y cyfle i gael siarad yn y cyfarfod. Esboniodd mai Manweb oedd y 6ed cwmni mwyaf yng Nghymru, gan gyflogi 2000 o bobl. Roedd y cwmni ar fin uno â Pacific Corps yn yr Unol Daleithiau a fyddai'n sicrhau ei fod gyda'r 10 darparwr gwasanaeth mwyaf yn y byd. Tynnodd sylw'r aelodau at bapur y CBI, gan nodi fod Manweb wedi derbyn gwahoddiad i gyfrannu i'r papur, a gwnaeth ei gymeradwyo'n llawn. Yn ystod ei gyflwyniad, mynegodd y pwyntiau canlynol:

- Ynglþn â'r hyn a fyddai'n annog y sector preifat i gymryd rhan, dywedodd fod angen i'r sector preifat ddeall y pwnc yn ogystal â'r manteision posibl i gwmnïau o'r sector preifat.
- Byddai gormod o fiwrocratiaeth yn codi ofn ar gwmnïau preifat. Roedd angen cefnogaeth i dywys cwmnïau trwy’r fiwrocratiaeth sydd dal yn bodoli (ee beth oedd "elw gormodol" yng nghyd-destun cymorth ariannol gan yr UE?)
- Gallai diffyg cyngor ynglþn â cheisiadau am arian arwain at wastraffu amser gwerthfawr cwmnïau ac roedd derbyn ymateb ar geisiadau aflwyddiannus yn hanfodol. Gan gyfeirio at brofiad blaenorol gyda Powersave, disgrifiodd Mr Garrity broblemau y gellid fod wedi eu hosgoi pe byddai cyngor wedi bod ar gael yn gynt.

- Roedd angen dod i benderfyniad ynglþn â cheisiadau yn gyflym – er mwyn dilyn y newidiadau sy'n digwydd yn y sector preifat.
- Roedd yn rhaid cynnwys y sector preifat yn y broses mor gynnar ag roedd yn bosibl.
- Yng nghyd destun cynaladwyedd, cyfeiriodd Mr Garrity at gyswllt Manweb â'r University of the Highlands and Islands, y brifysgol nad oes iddi leoliad pendant. Roedd y rhwydwaith opteg ffibr a osodwyd gan y cwmni wedi arwain at gyfleusterau telathrebu gwell gan sicrhau fod pobl yn gallu cael gwell mynediad i wybodaeth (addysg a hyfforddiant). Cyfrannodd at gynaladwyedd yr amgylchedd hefyd (llai o angen i deithio pellteroedd mawr) ac roedd yn cynorthwyo i gadw pobl mewn ardaloedd anghysbell.
- Ynglþn â ffynonellau ynni adnewyddadwy, roedd gan y cwmni nifer o ffermydd gwynt. Roedd ei adran mentrau newydd bob amser yn awyddus i archwilio technolegau newydd.
- Gan grynhoi, gwnaeth Malcolm Garrity annog y Cynulliad "i roi gwybodaeth i ni, ein defnyddio ac ymddiried ynom". Dyfynnodd Graeme Meadows (DG16 ym Mrwsel) hefyd a ddywedodd "Rhaid plygu’r fiwrocratiaeth a'i defnyddio a'i hadolygu'n gyson" a "Gallaf eich tywys i ardaloedd rhaglen yn yr Undeb Ewropeaidd sy'n meddu ar symiau mawr o arian ac nad ydynt yn cyflawni fawr ddim gydag ef. Pam? Oherwydd nad ydynt byth yn defnyddio unrhyw ddychymyg a brwdfrydedd go iawn i gyflawni’r hyn y dylid ei gyflawni gyda'r arian".

**John Everett, Elf Oil UK Cyf**

4.12 Diolchodd John Everett i'r Pwyllgor am y cyfle i gael siarad yn y cyfarfod. Wrth gyflwyno, esboniodd fod y sector yr oedd yn ei gynrychioli yn un cystadleuol dros ben ac yn wynebu problemau sylweddol o ran logisteg. Roedd y cwmni wedi llwyddo i oroesi trwy fod yn ddyfeisgar.

4.13 Yn ychwanegol at y pwyntiau a godwyd gan Malcolm Garrity, a gefnogwyd yn llawn ganddo, mynegodd Mr Everett y pwyntiau canlynol:

- Roedd Elf Oil UK eisoes wedi ffurfio partneriaethau lleol ac wedi clustnodi tri phrosiect yn ymwneud â chyflenwi ynni, hyfforddiant ac addysg, a thrafnidiaeth. Roedd yn glir i’r holl gwmnïau o dan sylw bod rhaid i’r prosiectau hyn ychwanegu gwerth at y gymuned gyfan, yn hytrach nag at unrhyw fusnes unigol. Roedd y bartneriaeth wedi ei chael hi'n anodd i gael gafael ar rywun i esbonio neu gynnig cyngor ynglþn â sut i ddatblygu'r syniadau.
- Roedd gan y sector preifat lawer o syniadau ond nid oedd yn gallu cael gwybodaeth ynglþn â'r broses ceisiadau ar hyn o bryd.
- Roedd angen i'r rheolau fod yn eglur ac roedd angen cymeradwyo prosiectau'n gyflym – roedd unrhyw oedi yn ddamniol i brosiectau. Cyfeiriodd sylw'r pwyllgor at y grant Datblygu Rhanbarthol, ble'r oedd y broses yn deg ac yn agored. Byddai rhywbeth yn debyg mewn egwyddor yn ddymunol, er nad oedd yn rhaid defnyddio'r un manylion yn union.
- Gallai'r broses gysylltu gael ei wneud trwy gyfrwng dull o gynghori busnesau, dull gweithredu gan ddefnyddio themâu (e.e. datblygu morol), neu ddull daearyddol neu sectorol. Nid oedd gwahaniaeth, cyn belled â'i fod yn digwydd. Roedd angen cymorth ar y sector preifat wrth drosi prosiectau posibl yn rhai a oedd yn gweddu i'r rhaglen.
- Roedd Elf Oil UK yn awyddus iawn i gymryd rhan yn y broses, ond roedd yn ei chael hi'n anodd

iawn gwneud hynny.

4.14 Yna agorodd y Cadeirydd y drafodaeth i'r llawr a mynegwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd "Cefnogaeth dechnegol" yn derm gan y Comisiwn am gefnogaeth gyda cheisiadau am gronfeydd strwythurol. Roedd angen 'cefnogaeth dechnegol' ar y sector preifat *yn gynnar* er mwyn cael gafael ar arian o gronfeydd yr UE.
- Roedd angen dull o gefnogi effeithlon a syml gyda phwynt cyswllt eglur a mynediad hawdd. Codwyd y cwestiwn o sut ddylid strwythuro'r dull o gefnogi. Awgrymwyd asiantaeth gefnogi 'hyd braich'.
- O ran cyfanswm y wybodaeth, roedd hi'n ymddangos fod diffyg.
- Roedd y sefydliadau sector preifat a gynrychiolwyd yn y cyfarfod wedi ymrwymo i fusnesau cynaliadwy yn hytrach na manteision ariannol yn y tymor byr.
- Awgrymwyd mai safleoedd maes brown ddylai fod y dewis cyntaf ar gyfer rhaglenni datblygu economaidd.

Crynodeb y Cadeirydd

4.15 Gwnaeth y Cadeirydd grynhoi trwy ddiolch i Malcolm Garrity a John Everett am eu cyfraniadau gwerthfawr dros ben. Nododd y byddai cyngor a chefnogaeth ddigonol yn gynnar yn ogystal ag adborth yn nes ymlaen yn gwella'r sefyllfa heb os nag oni bai, er ei bod hi'n amhosibl gwarantu o'r dechrau y byddai arian ar gael yn bendant ar gyfer prosiect arbennig. Felly, byddai'n un o brif flaenoriaethau'r Pwyllgor i ddosbarthu gwybodaeth i fusnesau cyn gynted ag sy'n bosibl.

**Eitem 4 yn parhau**

**Hilary Davies a Dick Crawshaw, Siambr Fasnach Gorllewin Cymru**

4.16 Croesawodd Ms Davies y cyfle i siarad gerbron y Pwyllgor, a mynegodd y pwyntiau canlynol yn ystod ei chyflwyniad:

- Nid oedd y sector preifat yn gwybod sut gallai fod yn gysylltiedig ag arian Amcan 1 a sut gellid defnyddio'r arian i greu hinsawdd o gyflogau uwch a swyddi mwy safonol. Dylid defnyddio arian o Ewrop i annog gweithwyr sy'n meddu ar sgiliau i aros yn yr ardal, yn ogystal â mentergarwch a hyfforddiant.
- Ar hyn o bryd, roedd teimlad o ddifaterwch ac anghrediniaeth ynglþn â'r ffaith y byddai derbyn arian gan raglenni Amcan 1 yn haws na'r ffyrdd presennol o dderbyn arian gan Ewrop.
- Dylid trefnu sioeau teithiol ledled Cymru, a allai dargedu cwmnïau penodol, i ddangos sut gallai busnesau bychain a chanolig fod yn gysylltiedig â'r rhaglenni. Gallai'r rhain ychwanegu at waith y cyfarfodydd brecwast llwyddiannus a drefnwyd gan y Siambr Fasnach a'r Cynulliad Cenedlaethol. Gellid defnyddio astudiaethau achos o raglenni Ewropeaidd blaenorol fel ffordd o drosglwyddo gwybodaeth i'r sector preifat.

- Dylai'r wybodaeth a ddarperir i'r sector preifat fod yn syml, yn eglur ac yn hawdd ei deall. Roedd angen i gwmnïau wybod beth oedd ar gael ac a oeddent yn gymwys i dderbyn cymorth. Roedd derbyn rhybudd o'r rowndiau ymgeisio ymlaen llaw yn hanfodol os oedd cwmnïau'n mynd i gael digon o amser i baratoi eu cynigion.
- Dylai fod unigolyn neu sefydliad ar gael i ddarparu cyngor i'r sector preifat ynglþn â'r arian sydd ar gael. Gallai'r Siambrau Masnach gyflawni'r swyddogaeth hon.

**Saleem Kidwai, Association of Muslim Professionals**

4.17 Croesawodd Mr Kidwai y cyfle i fynegi ei safbwyntiau ynglþn â chysylltiad y sector preifat â'r rhaglenni a nodwyd yn y ddogfen rhaglenni Ewropeaidd. Roedd ei gyflwyniad yn cynnwys y materion a godwyd yn y papur y bu mor garedig â'i ddarparu i'r aelodau ymlaen llaw (EDC-09-99 (p.2W)) Teimlai mai busnesau bychain a chanolig oedd asgwrn cefn unrhyw economi a mynegodd y pwyntiau canlynol gan gadw busnesau bychain a chanolig mewn cof:

- Byddai'n rhaid i'r sector preifat ffynnu cyn i'r amcanion a ddiffiniwyd yn y ddogfen allu cael eu cyflawni. Byddai'r sector preifat yn frwdfrydig am y rhaglenni Amcan 1 dim ond os gallent fod yn siðr y byddai'r rhaglen yn dod â budd i'r sector preifat.
- Roedd mwy a mwy o dystiolaeth yn ymddangos i brofi y gallai clystyru a rhwydweithio helpu busnesau bychain a chanolig i dyfu. Roedd angen rhoi anogaeth i'r rhain.
- Roedd tri ffactor y gellid eu nodi fel rhai a fyddai'n annog twf busnesau bach a chanolig, gan sicrhau y byddai'r rhaglenni Ewropeaidd yn llwyddo
- Ymyriadau sydd yn cynorthwyo cwmnïau i ddysgu am eu cwsmeriaid gan arwain at newidiadau a dyfeisiadau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y farchnad
- Anelu cymorth at grwpiau menter yn hytrach na chwmnïau unigol. Roedd hyn yn gost-effeithiol ac yn cynorthwyo i ddatblygu perthnasau adeiladol rhwng cwmnïau a chynyddu'r potensial iddynt ddysgu gan ei gilydd. Byddai cyswllt gyda'r sector preifat yn fwy effeithiol trwy gyfrwng canolwyr megis banciau, cynghorwyr ariannol, siambrau masnach a'r cyfryngau
- Nid oedd gwelliannau unigol yn ddigon. Er mwyn parhau i fod yn gystadleuol, roedd angen i gwmnïau allu newid a datblygu er mwyn ymateb i amodau newydd y farchnad. Roedd yn rhaid datblygu'r gallu hwn fel na byddai angen cefnogaeth y cyhoedd yn y tymor hir
- Roedd Cymru'n flaenllaw iawn yn y diwydiannau creu offer a pheirianneg, y diwydiant cynhyrchu dodrefn, y diwydiant cydrannau modurol a'r diwydiant hamdden electronig. Dylid ystyried tynnu'r cyfyngiadau oddi ar y diwydiannau hyn er mwyn eu galluogi i ddod yn arweinwyr yn eu meysydd.
- O ran y wybodaeth a’r gefnogaeth dechnegol sydd eu hangen ar y sector preifat, dylid ysgrifennu'r ffurflenni mewn iaith ddigon syml i'w deall yn hawdd, neu dylai cynghorwyr fod ar gael sy'n arbenigo mewn llanw ffurflenni.
- Nid oedd busnesau Asiaidd neu fusnesau sy'n eiddo i leiafrifoedd ethnig eraill, yn dymuno, nac yn disgwyl unrhyw driniaeth arbennig, ond roeddent am gymryd rhan ac roedd ganddynt gyfraniad i'w wneud. Nid oedd anghenion eu busnesau yn wahanol i anghenion cwmnïau eraill yn y sector preifat.

**Vic Davies, Prif Weithredwr V & A Holdings**

4.18 Croesawodd Mr Davies y cyfle i gymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor. Fe'i gwahoddwyd fel aelod o'r 'Fast Growth Fifty'. V & A Holdings oedd y cwmni a oedd yn tyfu gyflymaf yng Nghymru. Yn ystod ei gyflwyniad, mynegwyd y pwyntiau canlynol gan Mr Davies:

- Er bod ei gwmni'n llwyddiannus, nid oedd wedi'i leoli o fewn ardal grant, nid oedd wedi derbyn unrhyw gymorth gan y llywodraeth ac nid oedd erioed wedi cael cynnig cymorth gan unrhyw wleidydd neu was sifil er mwyn helpu'r cwmni i dyfu hyd yn oed yn gynt.
- Mae'r diffyg cymorth gan y llywodraeth wedi golygu nad yw'r cwmni wedi cyflogi cymaint o weithwyr ag y gallai fod wedi gwneud fel arall. Yn hytrach, rhoddwyd cymorth i fuddsoddwyr mewnol nad oeddent yn dangos yr un ymrwymiad i Gymru ag yr oedd ef neu ddynion busnes brodorol eraill yn ei ddangos.
- Ar gyfer y sector preifat roedd gofyn i wybodaeth fod yn syml ac yn hawdd ei ddeall, er enghraifft trwy ddefnyddio pwyntiau bwled.
- Roedd y cyflwyniadau blaenorol wedi gwneud i Mr Davies sylweddoli fod cwmnïau eraill yn rhannu'r un problemau â'i gwmni ef. Roedd y prinder sgiliau yn broblem fawr. Roedd o'r farn nad oedd diwydiant wedi diddymu prentisiaethau heb ystyried hyn yn ddwys, ond eu bod wedi cael eu gorfodi i wneud hyn ugain mlynedd yn ôl oherwydd cyflwr yr economi. Roedd angen darparu cefnogaeth i gwmnïau er mwyn iddynt allu hyfforddi eu gweithlu am gost resymol.
- Pwysleisiwyd y ffaith fod 60% o weithwyr V & A Holdings yn derbyn budd-dâl gan y wladwriaeth yn flaenorol a bod y llywodraeth yn arbed £4,000 bob wythnos oherwydd eu bod yn cael eu cyflogi gan V & A Holdings. Roedd hi'n eironig fod y cwmni wedi gorfod talu'r un faint mewn treth cyflogaeth.
- Rhoddodd Mr Davies enghraifft o sut gallai cymorth grant fod yn ffordd aneffeithlon i gwmni weithredu. Derbyniodd V & A Holdings gynnig prawf defnyddio ynni'n effeithlon gan SWALEC yn rhad ac am ddim, ond y byddai 65% o'r arian a arbedwyd yn cael ei dalu'n ôl i SWALEC. Derbyniodd SWALEC grant o 50% i brynu'r offer angenrheidiol ond roedd yn rhaid i'w gwmni ef dalu'r cyfanswm llawn. Penderfynodd fynd ymlaen heb SWALEC oherwydd mai'r dewis arall fyddai talu symiau mawr i SWALEC am nifer o flynyddoedd. Roedd angen i'r system grantiau fod yn agored ac yn dryloyw os oedd cwmnïau'n mynd i gymryd rhan.

4.19 Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau, a mynegwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd:

- Roedd angen i fusnesau fod yn ymwybodol o berthnasedd arian Amcan 1 – dylid ei werthu iddynt yn yr un ffordd ag yr oedd unrhyw gynnyrch arall yn cael ei farchnata a'i werthu.
- Ni ddylai'r cyfanswm o waith papur fod yn afresymol.
- Roedd broceriaid rhwydwaith, y cyfeiriwyd atynt gan Saleem Kidwai, yn arbenigwyr a oedd yn rhoi cyngor i sectorynglþn â marchnata a gwerthu cynnyrch. Un o'r enghreifftiau mwyaf adnabyddus oedd Seland Newydd ble cododd cyfanswm y gwin a allforiwyd yn ddramatig o ganlyniad i waith broceriaid rhwydwaith.
- Gellid edrych ar y rhai sy'n darparu cyngor ynglþn â'r arian sydd ar gael fel ciperiaid ac fel

potsiwrs. Roedd eu hangen er mwyn cynghori cwmnïau a fyddai prosiectau'n gymwys i dderbyn arian, ond yn yr un modd, derbyniwyd y dylent werthuso effaith yr arian a ddosberthir. Roedd rheolwyr o'r sector preifat wedi arfer bod yn atebol am eu penderfyniadau.

**Crynodeb y Cadeirydd**

4.20 Diolchodd y Cadeirydd i'r holl gyfranwyr am sesiwn defnyddiol iawn a daethant i'r casgliadau canlynol:

- Dylai'r trefniadau fod mor syml ag y gallent o fewn y rheolau Ewropeaidd ynglþn ag atebolrwydd.
- Dylai cwmnïau wybod beth y gallant wneud cais amdano, at bwy mae'n rhaid iddynt fynd, sut byddai'r cais yn cael ei asesu, beth oedd amserlen y broses a phryd y byddai'n rhaid iddynt gyflwyno eu cais.
- Dylid cynnal trafodaethau pellach ynglþn â'r graddau y gall busnesau fod yn uniongyrchol gysylltiedig â phartneriaethau a sut dylid darparu cefnogaeth i'r sector preifat. Dylai canolwyr megis y CBI, siambrau masnach a phrifysgolion chwarae rhan.
- Dylid annog busnesau i sylweddoli manteision ffurfio partneriaethau rhyngddynt.
- Mae'r diffyg gwybodaeth eglur sydd ar gael yn broblem fawr. Mae angen darparu gwybodaeth cyn gynted â phosibl, hyd yn oed os yw hyn yn golygu nad yw'n ddigon manwl. Gellid darparu gwybodaeth bellach cyn gynted ag y bydd y rhaglen yn fwy cadarn.

**Eitem 5: Gweithredu**

5.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan bwysleisio fod y papur ynglþn â'r datblygiadau o ran gweithredu yn bodoli i gynorthwyo'r drafodaeth yn unig. Croesawyd y papur gan y Pwyllgor ar y sail hon. Yn ogystal â’r drafodaeth hon ynglþn â'r datblygiad, roedd gweithredu ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. Byddai papur annibynnol yn cael ei gyflwyno cyn y cyfarfod hwnnw.

5.2 Yna rhoddodd Mr Cochlin grynodeb o'i bapur (EDC-09-99(p15W)), gan ychwanegu'r pwyntiau canlynol:

**Amcan 1**

- Er bod gan y Comisiwn 10 diwrnod i ofyn am ragor o wybodaeth ar ôl cyflwyno'r SPD, nid oedd yn debygol o fanteisio ar hyn gan fod yr Adran wedi bod mewn cyswllt agos a rheolaidd gyda'r Comisiwn wrth gasglu'r dogfennau at ei gilydd.
- Nid oedd y broses o ymgynghori gyda Brwsel yn debygol o gymryd llai na 5 mis, gan ddechrau o fis Tachwedd.

**Amcan 3**

- Ynglþn ag Amcan 3, roedd Fframwaith Cefnogi Cymunedol y DU (a oedd yn cynnwys Cymru)

wedi cael ei gyflwyno bellach. Byddai Rhaglen Weithredol Cymru yn cael ei chyflwyno'n nes ymlaen yn y mis. Yr unig newidiadau a gyflwynwyd ers i'r Pwyllgor weld y ddogfen ddiwethaf oedd rhai technegol.

**Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol**

- Roedd copi wedi cael ei gyflwyno i'r Comisiwn er gwybodaeth. Byddai'n dechrau cael ei helaethu gan y Cynulliad yng ngoleuni penderfyniadau polisi (ee targedau) yn y flwyddyn newydd.

**Pwyllgor Monitro**

- Pwysleisiodd Mr Cochlin fod y pwyntiau yn ei bapur yn cynrychioli gwaith sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd. Nid oeddent wedi cael eu cymeradwyo gan y partneriaid na'r Pwyllgor Gweithredol eto. Byddai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn cael ei gynnwys mewn unrhyw ystyriaeth bellach o'r materion a godwyd hefyd.
- Y nod oedd cael agenda ar gyfer y pwyllgor monitro erbyn dechrau mis Rhagfyr.
- Roedd y cynigion ynglþn â chynnwys y pwyllgor yn golygu haneru nifer yr aelodau yn y pwyllgor monitro, yn ogystal â'r rhaniad tair ffordd o ran cynrychiolaeth a ragwelwyd gan y Pwyllgor.
- Roedd angen ystyried y rhaglen waith i baratoi Cyflawnder y Rhaglen ar gyfer Amcan 1 yn gynnar iawn er mwyn ei phrofi wrth ymgynghori â Brwsel.

**Ysgrifenyddiaeth**

- Byddai trefniadau dros dro yn cael eu mabwysiadu i ddelio â'r trafferthion sy'n gysylltiedig â'r ffaith fod gweithwyr WEPE yn dal yn brysur yn gweithredu rhaglenni presennol. Yn wreiddiol, byddai 15 o bobl yn ymuno â'r Adran Materion Ewropeaidd i ffurfio grðp craidd yr Ysgrifenyddiaeth a fyddai'n gyfrifol am wneud paratoadau.

**Pecynnau Strategol**

- Byddai'r pwyllgor monitro yn gyfrifol am bennu'r cydbwysedd rhwng pecynnau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- O ran cynlluniau pontio (isadeiledd ac ati) roedd y Comisiwn yn debygol o fynegi barn ynglþn â sut y dylid rhoi prosiectau at ei gilydd.

5.3 Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd y pwyntiau ychwanegol canlynol:

- Roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn ynglþn â'r amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu. Ymrwymodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ymchwilio i'r posibilrwydd o hysbysebu swydd y Prif Weithredwr ym mis Tachwedd ac o weithredu trefniadau monitro wrth gefn yn fwy buan.

- Roedd yr Adran Weithredol a'r Pwyllgor yn cytuno ei bod hi'n bwysig iawn fod y prif Weithredwr a'r staff yn gweithredu'n rhagweithiol. Roedd angen i'r staff gynnwys rhai sy'n arbenigo mewn materion sy'n croestorri megis cyfleoedd cyfartal a datblygu cynaliadwy.
- Trafodwyd yr angen i gynnwys busnesau, o bosibl trwy gyfrwng Busnes Cymru, yn y trefniadau arfaethedig.
- O ran cynrychiolaeth gyfartal, ystyriwyd a ddylai hyn gael ei drin yn gyntaf gan y corff wrth gefn neu cyn ei sefydlu. Cydnabuwyd y byddai angen i'r mesurau i sicrhau cynrychiolaeth dda gael eu gweithredu cyn gynted ag sy'n bosibl.
- Byddai'r undebau amaethyddol yn cael eu cynrychioli ar y pwyllgor monitro.
- Awgrymwyd y gellid sefydlu uned benodol i gynorthwyo busnesau preifat a chydnabuwyd y byddai angen i'r Pwyllgor drafod mater cefnogaeth i'r sector preifat unwaith eto.
- Roedd angen cyhoeddi cyfarwyddyd cyn gynted â phosibl (er ei fod yn cael ei gydnabod fod angen i farn y GE am y rhaglen fod yn weddol glir cyn y gallai hyn ddigwydd)

**Crynodeb y Cadeirydd**

5.4 Diolchodd y cadeirydd i Mr Cochlin am ei gyfraniad defnyddiol iawn. Nododd mai'r pwyntiau canlynol oedd y rhai pwysicaf a fynegwyd yn ystod y drafodaeth:

- Roedd angen ystyried yn ddwys y berthynas rhwng y Cynulliad, y Pwyllgor Gweithredol a'r pwyllgor monitro.
- Roedd angen ystyried ymhellach y cyswllt rhwng yr haenau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Roedd angen ystyried y mater o swyddogaeth 'adfocatiaeth' i'r sector preifat.
- Roedd y Pwyllgor yn dymuno trafod swyddogaeth y pwyllgor monitro ymhellach, gan gynnwys a fyddai ganddo swyddogaeth arfarnu.

**Gweithredu**

- Ysgrifennydd y Cynulliad i ymchwilio ar fyrder i'r broses o benodi Prif Weithredwr yn gynt ac i weithredu trefniadau monitro wrth gefn yn fwy buan.

**Eitem 6: Blaenraglen Waith**

6.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw'r Pwyllgor at baragraffau 5 a 6 o EDC-09-99(p10W) a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi a oedd yna unrhyw faterion ychwanegol yr oeddent yn dymuno eu hystyried yn ystod y misoedd nesaf. Mynegwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Teimlwyd mai'r Cronfeydd Strwythurol a'r materion cysylltiedig ddylai fod yn brif flaenoriaeth y Pwyllgor. Cytunwyd y byddai'r eitem ynglþn â gweithredu ar frig yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 17 Tachwedd.
- Awgrymwyd y dylid clustnodi rhagor o amser i drafod y gwasanaethau cefnogi busnes mewn llai o gyfarfodydd, yn hytrach na thrafod y pwnc mewn pedwar cyfarfod ar wahân. Byddai hyn yn

sicrhau dadl fwy manwl ac adeiladol.

- Dylid cynnwys ETAG ym Mlaenraglen y Dyfodol. Roedd yr amserlen Ôl-16 ar gyfer delio ag ETAG yn nacáu'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod ar y cyd gyda'r Pwyllgor hwnnw, ond er gwaethaf hyn gallai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ddisgwyl gallu cyfrannu at gwestiwn cyfrifoldeb TECs o ran cefnogi menter.
- Cyn belled â bod y CBDC yn aros yn un o gyfrifoldebau'r Pwyllgor o ran cyllideb, dylai barhau i gymryd diddordeb mewn datblygiadau. Yn y cyd-destun hwn, gofynnodd Alun Cairns i'w siom na thrafodwyd datganiad yr Ysgrifennydd Cyntaf ynglþn â CBDC gyda'r Pwyllgor, gael ei gofnodi.
- Dylid awgrymu i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl-16 a'r Pwyllgor Addysg Cyn-16, Ysgolion a Dysgu Cynnar y dylent gynnwys mentergarwch yn eu Blaenraglenni Gwaith.
- Dylid ystyried polisi ynni os oedd modd cael digon o amser i'w drafod

**Crynodeb y Cadeirydd**

6.2 Gan grynhoi'r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd:

- Derbyniwyd y cynigion yn EDC-09-99(p10W) yn fras.
- Rhaid i Gronfeydd Strwythurol a materion cysylltiedig fod yn brif flaenoriaeth y Pwyllgor.
- Byddai'r Pwyllgor yn cadw llygad barcud ar y CBDC a materion cysylltiedig eraill.

**Gweithredu**

- Gweithredu i'w osod ar frig yr agenda ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 17 Tachwedd.

**Pwyllgor Datblygu Economaidd EDC-09-99(min)DRAFFT – ATODIAD 1**

**Camau i'w Cymryd a Phwyntiau i'w Trafod Ymhellach o Gofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Medi a 13 Hydref**

1. Para 2.2 Eitem 5 (cofnodion 29 Medi): Esboniodd y Cadeirydd fod yr eitem ynglþn â thargedau wedi cael ei symud i'r cyfarfod ar 17 Tachwedd o ganlyniad i'r angen i glustnodi amser digonol i'r sector preifat, a diddordeb y Pwyllgor mewn materion yn ymwneud â gweithredu.

2. Para 2.2 Eitem 4 (cofnodion 4 Hydref): Dosbarthwyd y papurau i'r aelodau

3. Eitem 3 Para 3.4: Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cynulliad fod ffatri LG o fewn yr ardal Amcan 2 arfaethedig.

4. Eitem 4 Para 4.11: Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cynulliad mai 92%: 8% oedd y rhaniad ar gyfer arian punt am bunt rhwng llywodraeth ganolog a lleol, fel y nodwyd yn y dogfennau a anfonwyd i Brwsel.

5. Eitem 4 Para 4.7: Erbyn hyn, roedd y wybodaeth wedi cael ei hanfon at y Pwyllgor Materion Cymreig (PMC). O ran cyfraniad y Pwyllgor i ymchwiliad y PMC, roedd sesiwn tystiolaeth yn debygol o ddigwydd ar yr 22ain o fis Tachwedd, yng Nghaerdydd. Roedd y Cadeirydd a'r Clerc dal yn trafod gyda'r PMC, a byddent yn hysbysu'r aelodau cyn gynted ag y byddent yn dod i benderfyniad ynglþn â'r ffordd ymlaen.

6. Eitem 4 Para 4.11: Nid oedd y cwestiwn o unrhyw ddiwygiad i'r cynnig ynglþn â chronfeydd strwythurol, a gyflwynwyd gerbron y sesiwn lawn ar 19 Hydref, wedi cael ei gymeradwyo gan nad oedd hi wedi bod yn bosibl i'r pwyllgor ddod i benderfyniad unfrydol am y mater.

Eitem 4 Para 4.14: Byddai Steve Phillips yn gwneud cyflwyniad cryno ynglþn â chymorthdaliadau'r wladwriaeth a chymorthdaliadau gweithredu yn ystod y cyfarfod, a chafodd y pwnc ei gynnwys ym Mlaenraglen Gwaith y Pwyllgor ar 1 Rhagfyr.

7. Eitem 5: Roedd ymateb y Pwyllgor i ETAG wedi cael ei anfon at y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl-16. Roedd copi wedi cael ei ddosbarthu i'r aelodau. Roedd angen ystyried ETAG ymhellach yng nghyd-destun blaenraglen waith y Pwyllgor. Hefyd, soniodd y Cadeirydd am ei bwriad i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl-16 pan fyddent yn trafod yr Adroddiad ETAG ar 10 Tachwedd.

**Gweithredu:**

- Y Clerc i hysbysu'r aelodau am y ffordd ymlaen gyda'r PMC, cyn gynted ag y byddai penderfyniad yn cael ei wneud.
- Ysgrifennydd y Cynulliad i ddarparu copi o fersiwn terfynol y dogfennau Amcan 1 i'r aelodau, fel a gyflwynwyd i Frwsel.